

Strategaeth Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2023/24 – 2027/28

Sefydliad:	Prifysgol Caerdydd
Arweinydd Strategaeth Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru:	Yr Athro Roger Whitaker
E-bost:	WhitakerRM@caerdydd.ac.uk

Adran A: Trosolwg

1. Dyheadau strategol

Rhowch drosolwg o ddull pum mlynedd eich sefydliad o gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a sut y caiff y rhain eu cefnogi gan Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru. Efallai y byddwch am amlygu meysydd eang yr ydych yn eu targedu, a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'ch cenhadaeth sefydliadol a'ch strategaethau mewnol. [uchafswm o 250 gair]

Mae ymchwil, arloesi a chenhadaeth ddinesig yn themâu canolog yn strategaeth Y Ffordd Ymlaen 2018-23 Prifysgol Caerdydd. Yn ystod cyfnod strategaeth flaenorol Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru, agorwyd ein hadeilad sbarc blaenllaw (sy'n gartref i'n gofod deor a Pharc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (SBARC) cyntaf y byd), a'n Hwb Ymchwil Drosiadol o'r radd flaenaf (sy'n gartref i Sefydliad Catalysis Caerdydd, y Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, a'r Sefydliad Arloesedd Sero Net). Yn y cyfnod nesaf, ein huchelgais yw adeiladu ymhellach ar ein seilwaith a'n diwylliant ar gyfer arloesi ac ymchwil, gan ddefnyddio ein dull 'Arloesi i Bawb' a sefydlwyd drwy Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhoi rhagoriaeth ymchwil wrth galon ein gweithgareddau arloesi, integreiddio cyd-gynhyrchu i'n gweithgareddau cenhadaeth ddinesig, a pharhau i ddatblygu mwy o gysylltedd ar draws pob un o dri maes y strategaeth;
- Gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth strategol a atgyfnerthwyd gan ein partneriaethau allanol gyda busnesau, elusennau a sefydliadau cymdeithas sifil, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y GIG, WIN, GW4 a Phorth y Gorllewin;
- Twf mewn dyfarniadau ymchwil gydweithredol, yn ogystal â gweithgaredd masnachol trwy fusnesau newydd a chwmnïau deillio, a gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm;
- Cefnogi cymunedau lleol i ffynnu trwy fentrau wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n rhoi anghenion a lleisiau dinasyddion yn greiddiol iddynt;
- Effaith hyfforddiant a chymorth arloesol i staff a myfyrwyr, gwella ymgysylltiad â sefydliadau allanol, wedi'i ategu gan DPP o ansawdd uchel i feithrin sgiliau ac ehangu mynediad at arbenigedd ymchwil sydd o werth i economi Cymru;

Yn ganolog i gyflawni mae Rheolwr Busnes Arloesedd penodedig a gefnogir gan staff gwasanaethau proffesiynol arbenigol (mae 33 yn cael eu hariannu gan Gronfa Arloesedd

Ymchwil Cymru), yn gweithio ar draws timau allweddol sy'n canolbwyntio ar arloesi yn y brifysgol.

2. Grant capasiti

Darparwch rywfaint o naratif ar sut mae'ch sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti o £250,000 sydd wedi'i gynnwys yng Nghronfa Arloesedd Ymchwil Cymru. Sut bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a chymell a gwella perfformiad wrth gyfnewid gwybodaeth? [uchafswm o 250 gair]

Mae'r grant capasiti yn cefnogi ein **tîm Ceisiadau Mawr, ein tîm Effaith ac Ymgysylltu, a'n tîm Partneriaethau Strategol.**

Mae'r **tîm Ceisiadau Mawr** yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno ceisiadau ymchwil ac arloesedd strategol ar raddfa fawr (e.e. y cais media.cymru llwyddiannus am £50 miliwn ar draws SAU Cymru i'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd, gan ategu ein cais CSconnected blaenorol i'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd am £44 miliwn). Mae mwy o gapasiti yn y tîm wedi gwella'r gwaith o gyflawni prosiectau mawr sy'n canolbwyntio ar ddata (e.e. yr Hyb Arloesedd Seiber gwerth £20 miliwn i sefydlu cwmnïau twf uchel, codi ecwiti preifat, a hyfforddi 1,750 o bobl mewn sgiliau seiber; a'n Cronfa Her Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gwerth £10 miliwn, a ddechreuodd ym mis Hydref 2020 am 3.5 mlynedd).

Llwyddodd y **tîm Effaith ac Ymgysylltu** i gyflawni ein rhaglen cyllid sbarduno 'Arloesedd i Bawb' gwerth £2.1 miliwn, a ariannwyd gan Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru (gan gefnogi tua 150 o brosiectau). Mae bellach yn arwain y gwaith o gyflawni ein rhaglen Cyfrif Cyflymu Effaith UKRI wedi'i Gysoni gwerth £4.25 miliwn (H-IAA), sy'n cynnwys set gynhwysfawr o alwadau ariannu ar gyfer chwe chngor ymchwil yn y DU. Mae'r tîm hefyd yn cydlynu ein rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth a Datblygu Effaith ar gyfer staff a myfyrwyr, a sefydlwyd yn ystod cyfnod y strategaeth gyntaf, sydd hyd yma wedi darparu 24 sesiwn i 640 o gyfranogwyr.

Mae cyllid Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru wedi galluogi'r **tîm Partneriaethau Strategol** i ehangu. Mae gennym bellach chwe phartneriaeth strategol, a ffurfiolwyd pump ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: Dŵr Cymru, Airbus, Siemens Healthineers, Amgueddfa Cymru, a DSV. Mae'r tîm yn parhau i ddarparu cymorth proffesiynol parhaus ac ymroddedig i'r partneriaid hyn, yn ogystal â'n partner ffurfiol cyntaf, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn ogystal â chwmpasu partneriaethau strategol y dyfodol sy'n ategu partneriaethau presennol.

Adran B: Cynnwys penodol

3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm

Cynlluniwyd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru i gymell a gwobrwyo perfformiad, yn enwedig o ran cipio incwm allanol.

Rhowch fanylion sut y bydd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn cael ei defnyddio i alluogi eich sefydliad i dyfu ei incwm allanol fel y'i mesurir gan HE-BCI. Beth yw'r meysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf? Sut bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru? Pa weithgarwch newydd fydd yn cael ei gefnogi? Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio yn nhermau effaith Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [500 gair ar y mwyaf]

Amlygwch ganolfannau rhagoriaeth ymchwil sydd eisoes yn gweithredu fel canolfannau arloesi.

Canfu dadansoddiad diweddar gan London Economics o effaith economaidd Prifysgol Caerdydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-21, am bob £1 miliwn a fuddsoddir yn ymchwil Prifysgol Caerdydd (ac eithrio gweithgareddau sydd ag elfen cyfnewid gwybodaeth), fod £4.89 miliwn yn cael ei gynhyrchu ar gyfer cwmnïau'r DU. Cynhyrchwyd £59 miliwn pellach drwy 164 o gwmnïau deillio gweithredol a busnesau newydd gan staff a myfyrwyr, gan gefnogi 1,285 o swyddi amser llawn, y mae 665 ohonynt yng Nghymru. Cynyddodd ein hincwm ymchwil gydweithredol (ffigurau HE-BCI) 39% rhwng 2020-21 a 2021-22, dim ond un arwydd o effeithiau ein pwyslais cynyddol ar gefnogi gweithgareddau cydweithredol. Yn ogystal, roeddem yn gyntaf yng Nghymru o ran incwm ymgynghori, gweithgarwch DPP, nifer y datgeliadau a phatentau, ac incwm eiddo deallusol ar gyfer cyfnod HE-BCI 2021-22.

Mae ein canolfannau rhagoriaeth ymchwil ac arloesi, gan gynnwys ein pedwar sefydliad arloesedd, dau brosiect Cronfa Cryfder mewn Lleoedd, a mentrau newydd fel yr Hyb Arloesedd Seiber, yn rhoi gwerth i'r ecosystem arloesi leol. Yn ddiweddar, dyfarnodd media.cymru £180,000 o gyllid sbarduno i weithwyr llawrydd a busnesau bach a chanolig o Gymru i ymgymryd ag ymchwil, datblygu ac arloesi cyfnod cynnar, ac mae CSconnected wedi lansio cyfres o gysylltu DPP i fynd i'r afael â'r angen dybryd am sgiliau.

Gan adeiladu ar hyn, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

Gwreiddio arloesedd yn eang i gefnogi cydweithredu a chyd-greu ar gyfer canlyniadau cymdeithasol ac economaidd effaith uchel sydd o werth i Gymru. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- parhau i gefnogi canolfannau rhagoriaeth ymchwil ac arloesi i ehangu a dyfnhau eu cysylltiadau â diwydiant yng Nghymru a thu hwnt;
- meithrin y genhedlaeth nesaf o ganolfannau rhagoriaeth ar draws meysydd twf allweddol;
- cryfhau ein hygyrchedd i ddiwydiant, busnesau bach a chanolig, a chyrrff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector drwy ein tîm Ymgysylltu a Phartneriaethau Busnes, ein tîm Effaith ac Ymgysylltu, a'r Uned DPP, gan ddatblygu cyfleoedd cydweithredol i gynhyrchu incwm;
- darparu cefnogaeth partneriaeth ar gyfer cyd-greu, gan gwmpasu'r cylch bywyd cyfan o'r cyflwyniad cychwynol i berthnasoedd strategol eang;
- cyflymu cynghreiriau strategol (e.e. WIN, SETsquared, Porth y Gorllewin, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) i gefnogi cyfleoedd clystyrau rhanbarthol.

Gwella ein data a'n systemau, a seilwaith staff, i alluogi prosesu a monitro gweithgareddau ymchwil ac arloesedd yn fwy effeithlon. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- cyflwyno systemau newydd ar gyfer cymorth cyn-dyfarniadau (cyllid Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru wedi'i gyd-ariannu), er mwyn olrhain ceisiadau ymchwil gydweithredol yn well, gan ganiatáu ymyriadau amser real ar gyfer ansawdd a datblygu ceisiadau a rheoli prosiectau'n effeithlon;
- parhau i gwmpasu gwelliannau pellach i'n systemau, gan gynnwys contractau ymchwil ac arloesedd, Rheoli Cysylltiadau Cleientiaid, ac olrhain effaith, wedi'u halinio â chyflwyno ymchwil ac arloesi ar gyfer staff a phartneriaid.

Datblygu prosiectau a hyfforddiant sy'n diwallu anghenion ein partneriaid diwydiannol a thrydydd sector, gan fanteisio ar ein cryfderau ymchwil sy'n arwain y sector ac sy'n datblygu. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- defnyddio mwy o gapasiti i gefnogi Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, gan adeiladu ar lwyddiannau, gan nodi bod tri o'n Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth diweddar wedi cael sgôr 'eithriadol' gan Innovate UK gydag un o'r rhain yn ennill Gwobr Effaith Gymdeithasol Genedlaethol Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth;
- cefnogi datblygiad sgiliau hyblyg a gydlynir gan ein Huned DPP brofiadol, sy'n cynnig cyfuniad o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd yr uned yn arwain ar gyfleoedd tendro DPP (e.e. Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant Gwasanaethau Seicolegol, AaGIC, £5.7 miliwn) i ddatblygu cyrsiau sy'n cyd-fynd â bylchau sgiliau sector-benodol.

3.1 Rhowch fanylion o ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:

Dros gyfnod Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2023 – 2028, mae ein dangosyddion perfformiad allweddol fel a ganlyn:

1. Cynnydd o 7.5% y flwyddyn yn ein hincwm ymchwil gydweithredol (arian parod ac mewn nwyddau). Bydd gweithgarwch newydd yn cael ei yrru gan gefnogaeth barhaus gan ein tîm Cynigion Mawr, Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth newydd a gweithgarwch cydweithredol gyda'n Partneriaid Strategol, yn ogystal â gwell cipio data trwy systemau newydd ar gyfer cefnogaeth cyn dyfarnu.
2. Cynnydd o 5% y flwyddyn yn nifer y datgeliadau a gofnodwyd gan y brifysgol.
3. Cynnydd o 1% y flwyddyn mewn patentau a ffeilir gan neu ar ran y brifysgol.
4. Cynnydd o 3% y flwyddyn yn ein hincwm eiddo deallusol gyda chymedr y tair blynedd flaenorol yn llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn gychwynnol.
5. Cynnydd o 7% y flwyddyn o fuddsoddiad allanol a godir drwy gwmnïau deillio.
6. Cynyddu gwerth cyffredinol prosiectau Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth o £3 miliwn i £4.25 miliwn dros gyfnod y strategaeth.
7. Cefnogi dau aelod o staff ychwanegol y flwyddyn i gymryd rhan mewn rhaglenni ICURe SETsquared.
8. Cyflwyno un cais ariannu cydweithredol y flwyddyn gyda sefydliadau eraill SETsquared.
9. Cyflwyno pum cais am gyllid cydweithredol y flwyddyn gyda SAUau eraill yng Nghymru, wedi'u halinio â dangosyddion perfformiad allweddol WIN.

4. Twf busnes newydd a chymorth sgiliau

Amlinellwch y cymorth yr ydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd a chwmnïau deillio, ac i gwrdd â thargedau cynlluniau megis Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid Llywodraeth Cymru. Darparwch wybodaeth ar ble y bydd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, a lle mae'n caniatáu ichi fuddsoddi mewn twf pellach. Amlinellwch sut y bydd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn cael ei defnyddio i ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesedd ar gyfer myfyrwyr, graddedigion ac aelodau staff.

Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [500 gair ar y mwyaf]

Yn ystod Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2020-23, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant arloesi cadarnhaol ar gyfer ein staff a'n myfyrwyr gyda chymorth datblygu sgiliau wedi'i deilwra ac wedi gweld llwyddiant mewn twf busnes newydd drwy gynnydd mewn cwmnïau deillio ffurfiol (o bedwar i 14 rhwng 2019-20 a 2021-22) a busnesau newydd gan fyfyrwyr (cynnydd o 20% rhwng 2020-21 a 2021-22). Mae ein Huned DPP wedi gweithio gyda busnesau i gyd-ddatblygu pecynnau dysgu wedi'u teilwra i fynd i'r afael â bylchau sgiliau rhanbarthol allweddol. Mae ein ffocws yn y strategaeth hon ar y canlynol:

Cefnogi cwmnïau deillio newydd, trwy ddulliau marchnad-benodol:

- *technologau aflonyddgar*: mae meysydd amlddisgyblaethol fel canfod iaith casineb ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ynni mewn adeiladau yn cynnig cyfleoedd i gwmnïau deillio'n gynnar;
- *therapiwteg feddygol*: mae ein cydweithrediad agos â phartneriaid y GIG a diwydiant a'n gallu i reoli treialon clinigol yn golygu y gallwn adeiladu ar ddull beiddgar ein Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau i greu piblinell o eiddo deallusol hyfyrw sy'n mynd i'r afael â chlefydau o bwys byd-eang;
- *arloesi gwyddorau cymdeithasol*: mae sbarc yn enghraifft o gydweithio rhwng y gwyddorau cymdeithasol a'n hecosystem arloesi ehangach, gan greu cyfleoedd ar gyfer cwmnïau deillio rhyngddisgyblaethol yn ogystal ag effaith gymdeithasol.

Dyfnhau ac ehangu ein cynnig menter myfyrwyr trwy:

- ein rhaglen INSPIRE, sy'n darparu pecyn cymorth i fyfyrwyr ddatblygu ymwybyddiaeth fasnachol ac ymwybyddiaeth entrepreneuriaidd, trwy weithio ar syniadau busnes a phrosiectau effaith gymdeithasol.
- cydweithio â rhaglenni deori myfyrwyr eraill SETsquared, gan ddatblygu digwyddiadau a ddarperir ar y cyd, lle bo'n briodol.
- parhau â'n Interniaethau Arloesedd ac Effaith a ariennir gan Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru ar gyfer israddedigion i ymgymryd â lleoliad haf sy'n mynd i'r afael â mater economaidd neu gymdeithasol mewn cydweithrediad â sefydliad allanol. Bydd y cynllun yn cael ei werthuso yn ystod 2023-24.
- ehangu ein cynnig busnesau newydd i greu gwasanaeth cyngor busnes deori ac i fusnesau newydd, gan gynnwys llwybr gweithgarwch datblygu busnes, cyflog chwe mis, mynediad i ofod deori sbarc, a mentor trwy sbarc a Syniadau Mawr Cymru.
- cwmpasu cynllun cyflymydd graddedigion (yn seiliedig yng ngofod deori sbarc).

Datblygu partneriaethau allanol i alluogi sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion datblygu. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- parhau i ddyfnhau cydberthnasau â Phartneriaid Strategol presennol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Dŵr Cymru, Airbus, Siemens Healthineers, Amgueddfa Cymru, DSV) yn ogystal â meithrin gweithgarwch strategol newydd sy'n canolbwyntio ar ymchwil ar y cyd, datblygu sgiliau, meithrin gallu rhanbarthol a chenhadaeth ddinesig;
- datblygu gweithgareddau DPP pwrpasol gyda phartneriaid allanol, yn gysylltiedig â'n canolfannau rhagoriaeth, i gynyddu cynhyrchiant, manteisio ar gyfleoedd buddsoddi, a thyfu sefydliadau mewn ffordd gynaliadwy;

- defnyddio ein cyllid H-IAA gan UKRI i gefnogi ymchwilwyr i gyrraedd partneriaid allanol newydd a dyfnhau perthnasoedd â'r rhai presennol i gael effaith ystyrlon wedi'i seilio ar ganfyddiadau a methodolegau ymchwil trylwyr;
- datblygu fframwaith ar gyfer cynyddu ein gwaith gyda darparwyr AHO i hybu twf economaidd trwy fapio ein cydweithrediadau AHO cyfredol (e.e. trwy ein Huned DPP, Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig De Cymru) a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.

Cyrraedd mwy o staff a myfyrwyr trwy ein rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth a Datblygu Effaith:

- Mae hyn yn cwmpasu set gynhwysfawr o bynciau o ymgysylltu â pholisi i flaenoriaethu ac ymgysylltu â buddiolwyr i werthuso a chefnogi busnesau newydd a chwmnïau deillio. Mae ein 'cyfres haf' ar gyfer 2023 yn darparu mwy o hyblygrwydd a mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio personol a bydd yn llywio datblygiad pellach y rhaglen o 2024 ymlaen.

4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

Dros gyfnod Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2023 – 2028, mae ein dangosyddion perfformiad allweddol fel a ganlyn:

1. Cynhyrchu mwy o gwmnïau deillio newydd sydd â photensial twf uchel gydag o leiaf dau gwmni deillio newydd y flwyddyn.
2. Cynyddu cyfanswm y cwmnïau deillio ffurfiol sy'n berchen i ddarparwr addysg uwch a'r cwmnïau deillio (nad ydynt yn berchen i ddarparwr addysg uwch) sy'n *para mwy na thair blynedd* o ddeg dros gyfnod y strategaeth gyfan, gyda chyfartaledd o gynnydd o ddau y flwyddyn, gan gydnabod ei bod yn annhebygol y bydd proffil llinol bob blwyddyn.
3. Cynyddu nifer y prosiectau Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth byw o ddau yn y flwyddyn gyntaf (2023-24), yna un y flwyddyn (2024-2027), yna dau o 2027-2028, gan symud y ffigur cyffredinol o ddeg ar hyn o bryd i 17 yn 2028.
4. Cynyddu nifer y busnesau newydd i fyfyrwyr/graddedigion o 34 i 60 y flwyddyn erbyn 2027-2028.
5. Cynyddu nifer y busnesau newydd graddedig sy'n goroesi o leiaf tair blynedd o 80 i 100 y flwyddyn.
6. Cynyddu nifer y myfyrwyr/graddedigion sy'n mynychu gweithdai Menter o 650 i 1,400 y flwyddyn erbyn 2027-2028.
7. Cynyddu gwerth ariannol cyffredinol diwrnodau dysgwyr ar gyfer cyrsiau DPP ac addysg barhaus, a nifer y diwrnodau dysgwyr, 2% yn 2023-24 ac yna 1% pellach y flwyddyn tan 2028.
8. Cynnwys 200 o staff/myfyrwyr yn ein rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth a Datblygu Effaith yn 2023-24, a 300 y flwyddyn wedi hynny tan 2028.
9. Cynnwys 90 o bartneriaid allanol mewn gweithgareddau H-IAA cydweithredol y flwyddyn o 2023-2024 ymlaen.
10. Cefnogi 18 o leoliadau i ymchwilwyr mewn sefydliadau allanol drwy'r H-IAA yn 2023-24. Bydd hyn yn cynyddu i 30 o bobl y flwyddyn wedi hynny ar gyfer lleoliadau (ymchwilwyr i sefydliadau allanol) a phreswyladau (partneriaid allanol yn y brifysgol), ac eithrio 2025-26, pan fydd ailgyflwyno ceisiadau am gyllid H-IAA yn

debygol o leihau'r capasiti i gydlynu lleoliadau a secondiadau ar gyfer y flwyddyn honno.

5. Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Amlinellwch sut y bydd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig seiliedig ar le yn eang, gan ymgorffori ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau AU-AB mewn sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ymchwil, a helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth i'r gymuned o fewn adeiladau'r brifysgol, e.e. ar gyfer digwyddiadau, darlithoedd ac ati, hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [500 gair ar y mwyaf]

Mae ein his-strategaeth Cenhadaeth Ddinesig 2021 yn amlinellu ein hymagwedd gynaliadwy at weithgarwch cenhadaeth ddinesig sy'n cyd-fynd â'n hymchwil, ein harloesedd a'n haddysg. Mae ein ffocws o'r newydd ar ymgysylltu â'r cyhoedd trwy Wobr Dyfrnod Arian y Ganolfan Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn rhoi cyfle i wreiddio ymchwil ac arloesedd ymhellach wrth galon ein cenhadaeth ddinesig. Mae adrannau 3 a 4 yn cynnwys cysylltiadau â'n cenhadaeth ddinesig seiliedig ar le, gan gynnwys DPP, gweithgarwch menter, a thwf busnes newydd sy'n cefnogi'r economi leol. Mae'r adran hon yn amlinellu ein gwaith gyda chymunedau yng Nghymru, yn y ffyrdd a ganlyn:

Dyfnhau ein hymgysylltiad ag ysgolion ledled Caerdydd. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- parhau i gefnogi ein staff a'n cyn-fyfyrwyr i ddod yn llywodraethwyr ysgol, tyfu'r rhaglen i gynnwys recriwtio myfyrwyr ôl-raddedig i fod yn llywodraethwyr, a darparu cymorth parhaus i ysgolion lleol gyda ffocws ar 'Ehangu Cyfranogiad' ac ysgolion Cymraeg;
- archwilio ffyrdd o barhau i gymryd rhan ym 'Mhrifysgol Plant' Cyngor Caerdydd, er mwyn datblygu hyder a dyhead plant o gymunedau difreintiedig;
- parhau â'n gwaith gydag athrawon i'w galluogi i fyfyrwyr ar eu harfer addysgu, e.e. cwrs Dysgu Proffesiynol a Mentora Addysgol ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd a Chastell-nedd Port Talbot.

Gwreiddio prosiectau presennol a datblygu prosiectau newydd a arweinir gan y gymuned. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- cefnogi ein prosiect Porth Cymunedol Grangetown hirsefydlog sy'n archwilio cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol a arweinir gan y gymuned a gweithgareddau sy'n ymateb i lais y gymuned;
- archwilio cyfleoedd i barhau i gymryd rhan ym mhrosiectau Treftadaeth CAER, a Phresgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd;
- lansio Cronfa Dilyniant Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd i gefnogi dau i dri prosiect cymunedol y flwyddyn;
- archwilio cyfleoedd i gydweithio â SAUau eraill yng Nghymru fel rhan o Wyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC, gan adeiladu ar ein cydweithrediad yn 2022-23 â

Phrifysgol Bangor, a gyflawnodd tua 20 o weithgareddau cymunedol yn seiliedig ar ymchwil.

Cefnogi ein staff a'n myfyrwyr i ymgysylltu â chymunedau mewn ffordd deg i unioni'r cydbwysedd pŵer o brifysgolion i gymunedau. Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- parhau â'n sesiynau 'rhannu arferion gorau', sy'n cysylltu cymunedau allanol a staff a myfyrwyr y brifysgol i rannu llwyddiannau, heriau, a chyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd;
- creu grŵp ffocws cymunedol cyhoeddus i alluogi'r cyhoedd i lunio a llywio ein gweithgarwch, gan gynnwys cynrychiolaeth o fewn ein strwythurau llywodraethu;
- datblygu pecyn cymorth tâl cyhoeddus yn amlinellu dulliau tryloyw a safonol o daliadau am gynnwys y cyhoedd mewn gweithgareddau arloesi a chenhadaeth ddinesig y brifysgol.

Cyfleu ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda chymunedau lleol, trwy wneud y canlynol:

- parhau i gynyddu amlygrwydd ein gweithgareddau a chyfleusterau ddinesig trwy ddatblygu ein tudalennau gwe 'Cymunedol', cylchlythyrau ac astudiaethau achos;
- ehangu ein cyfranogiad mewn digwyddiadau Cymraeg/diwylliannol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, a Gŵyl y Gelli;
- cwmpasu digwyddiad 'drws agored' sefydliadol sy'n gwahodd ac yn annog rhyngweithio cyhoeddus ag ymchwil.

Gweithio gyda chyfranogwyr rhanbarthol i gynyddu effeithiolrwydd y genhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Cymru, drwy wneud y canlynol:

- ein hymwneud â Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru a Phartneriaeth Ymgysylltu Ddinesig newydd De Cymru (pedwar SAU yng Nghaerdydd, pum coleg AB, y Brifysgol Agored yng Nghymru, a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd);
- adnewyddu ein partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ailedrych ar ein nodau cyffredin a chreu cynllun gweithredu ar y cyd.

5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Dros gyfnod Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2023 – 2028, mae ein dangosyddion perfformiad allweddol fel a ganlyn:

1. Bydd o leiaf ddau brosiect y flwyddyn yn cael eu hariannu gan Gronfa Dilyniant Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
2. Dangos bod ein gweithgarwch cenhadaeth ddinesig yn cyd-fynd â chategorïau Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru, sy'n ymgorffori nodau a ffyrdd o weithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
3. Ymgymryd ag un gweithgaredd cenhadaeth ddinesig / ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cyd bob blwyddyn mewn cydweithrediad ag o leiaf un darparwr SAU / AB arall yng Nghymru (o bosibl trwy Bartneriaeth Ymgysylltu Ddinesig De-ddwyrain Cymru).
4. Cyflawni ein gweithredoedd ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â phum thema cynllun gweithredu'r Wobr Dyfrnod Arian:
 - a. 2023-24: 'Cenhadaeth': Rhoddir blaenoriaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd yn natganiad cenhadaeth swyddogol y brifysgol a strategaethau allweddol eraill, gyda dangosyddion llwyddiant wedi'u nodi, ac mae'n hawdd nodi'r

naratif o'r cysylltiad rhwng ymgysylltu â'r cyhoedd a chenhadaeth ddinesig yn nogfennau/cyfathrebiadau'r brifysgol.

- b. 2024-25: 'Arweinyddiaeth': Mae'r Is-Ganghellor yn gweithredu fel hyrwyddwr ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chenhadaeth ddinesig, gydag aelod o dîm uwch-arweinyddiaeth y brifysgol yn cymryd cyfrifoldeb ffurfiol am ymgysylltu â'r cyhoedd a chenhadaeth ddinesig.
- c. 2025-26: 'Cydnabyddiaeth': Cyflwynir cais am Wobr Dyfrnod Aur.
- d. 2026-27: 'Cymorth': Datblygir cymuned ymarfer weithredol sy'n gwahodd ymarferwyr ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymarferwyr cenhadaeth ddinesig ledled Cymru i rannu a chydweithio.
- e. 2027-28: 'Y Cyhoedd': Mae gwerth rhyngweithio cyhoeddus ag ymchwil i'w arddangos trwy ddigwyddiad personol ac astudiaethau achos ar wefan y brifysgol. Cynyddir amrywiaeth a maint cyfranogiad, ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd mewn ymchwil ac arloesi fel yr aseswyd trwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Adran C: Cysondeb â pholisi a blaenoriaethau

6. Cysondeb â pholisi Cymru a'r DU

Disgrifiwch sut mae eich strategaeth Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn cyd-fynd â pholisïau rhanbarthol, Cymru a'r DU sy'n seiliedig ar leoedd, e.e. bargeinion twf rhanbarthol / dinas-ranbarth lleol. (Gweler Cylchlythyr W23/12HE, paragraff 30)
[500 gair ar y mwyaf]

Mae ein strategaeth yn cyd-fynd â pholisïau rhanbarthol, Cymru a'r DU, y mae nifer ohonynt wedi'u hamlygu yma:

- Mae ein hymagwedd strategol yn ymgorffori gweledigaeth **Strategaeth Arloesedd Llywodraeth Cymru** ar gyfer arloesi trwy wreiddio gweithgareddau mewn ecosystem sy'n hyrwyddo **diwylliant** cadarnhaol, mynediad **cyfartal** i arloesi a chenhadaeth ddinesig, a **chydweithio** o fewn a thu hwnt i'n sefydliad. Mae ein cryfderau a'n blaenoriaethau arloesi yn cyd-fynd yn dda â phedair cenhadaeth Llywodraeth Cymru – er enghraifft, trwy ein canolfannau rhagoriaeth ymchwil ac arloesi fel y Sefydliadau Arloesedd Prifysgol Sero Net, a Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl (**hinsawdd a natur, iechyd a llesiant**), ein themâu cenhadaeth ddinesig o adeiladu sgiliau Cymru ar gyfer y dyfodol, a chataleiddio adferiad gwyrdd Cymru (**addysg, iechyd a llesiant**), a'n gallu cynyddol i ymgorffori masnacheiddio yng ngweithgareddau staff a myfyrwyr, a'n gwaith gyda diwydiant i hybu sgiliau a ffyniant rhanbarthol (**yr economi**).
- Mae ein strategaeth yn cyd-fynd â phedair colofn **Strategaeth Arloesedd Llywodraeth y DU**, yn enwedig Colofnau 3 a 4: Sefydliadau a Lleoedd, a Chenadaethau a Thechnolegau. Fel yr amlinellwyd yn ein strategaeth, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein **ymchwil a'n harloesedd yn diwallu anghenion** amrywiaeth o sefydliadau megis busnesau (mawr, busnesau bach a chanolig, a microfusnesau), grwpiau dinesig a chymunedol, yn ogystal â chyrrff gwleidyddol a llywodraethol. Trwy ein buddsoddiadau strategol mawr yn ein sefydliadau arloesedd yn ogystal â mentrau a ariennir yn allanol megis ein prosiectau Cronfa Cryfder mewn Lleoedd, rydym yn ysgogi arloesedd **i fynd i'r afael â heriau mawr a wynebwr gan y DU a'r byd**. Mae ein Sefydliad Arloesedd Prifysgol Trawsnewid Digidol yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer cyfoeth o

arbenigedd prifysgol sy'n ceisio **ysgogi gallu mewn technolegau allweddol** trwy arloesedd cyfrifol.

- Mae ein cydweithio agos â **Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd** yn cydnabod ein synergedd â'i **Gynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol**. Mae ein nodau arloesi yn cyd-fynd â heriau rhanbarthol allweddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: **mynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd a hybu twf, gwella gallu a chapasiti arloesi, datgarboneiddio ein hamgylchedd erbyn 2025, a gwella ein seilwaith ffisegol a digidol**. Mae'r Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol hwn yn amlinellu cyflawniadau allweddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hyd yma. Mae nifer o'r cyflawniadau hyn naill ai'n cael eu harwain gan Brifysgol Caerdydd neu'n ymwneud â hi. Er enghraifft, dau ddyfarniad Cronfa Cryfder mewn Lleoedd UKRI (CSconnected a media.cymru), a'r cymorth i sefydliadau'r sector cyhoeddus (e.e. awdurdodau lleol) ddod yn yrwyr arloesi drwy'r Gronfa Her, y mae Prifysgol Caerdydd yn ei chydgyssylltu. Rydym yn gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau bod y rhanbarth yn dod yn un sy'n **gystadleuol** (e.e. trwy feithrin gallu arloesi yn ein staff a'n myfyrwyr), yn **gysylltiedig** (e.e. trwy fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu sy'n chwilio am atebion newydd i gefnogi trosglwyddiad sero net mewn technolegau sy'n ymwneud ag ynni, trafniadaeth a logisteg, ymhlith eraill), ac yn **gydnerth** (e.e. trwy ein gwaith ar wella sgiliau, a gweithio gyda chymunedau lleol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gweithredu).

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Darparwch wybodaeth benodol ar sut y bydd strategaeth Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn cefnogi'r saith nod a'r pum ffordd o weithio yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#).

[250 gair ar y mwyaf]

Mae enghreifftiau o'n haliniad â'r saith nod yn cynnwys y canlynol:

Cymru Iachach – Mae ein Sefydliad Arloesedd Prifysgol Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl yn datblygu dulliau arloesol o wella triniaethau a therapïau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl a niwroddirwyol cymhleth.

Cymru Lewyrchus – Bydd ein Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a Sefydliad Catalysis Caerdydd yn darparu arloesedd technolegol mewn gofal iechyd, ynni a chyfathrebu.

Cymru Gydnerth – Mae ein Sefydliad Arloesedd Prifysgol Sero Net yn cataleiddio dull rhyngddisgyblaethol o wireddu sero net, gan ddod ag arbenigwyr ynghyd, gan gynnwys y gwyddorau ffisegol, peirianneg, a'r gwyddorau cymdeithasol.

Cymru Fwy Cyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynol – Mae ein Parc Ymchwil Gwyddor Gymdeithasol yn dod ag 11 o ganolfannau ymchwil gymhwysol at ei gilydd sy'n ceisio gwella cydraddoldeb a buddion i gymunedau lleol.

Cymru â Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu – Mae media.cymru yn darparu cymorth ymchwil a datblygu arloesol i fusnesau bach a chanolig, microfusnesau a gweithwyr llawrydd i gystadlu â chwmnïau cyfryngau byd-eang, yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg.

Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang – Mae ein partneriaeth ryngwladol gyda Phrifysgol Namibia yn sail i berthynas gydfuddiannol hirhoedlog sydd wedi cyflawni mwy na 30 o weithgareddau ar y cyd.

Yn ogystal, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **cynnwys** a gwranddo ar ein partneriaid allanol i sicrhau ein bod yn ymgymryd â **chydweithio** ystyrlon sy'n cyd-fynd â'u hanghenion;
- cydbwysio anghenion tymor byr a **thymor hir** trwy ddarparu cymorth ar gyfer gweithgareddau amser-sensitif, wrth ymgymryd â chynllunio tymor hwy ar gyfer ymyriadau cynaliadwy;
- sicrhau **cysondeb** drwy gysoni ein gweithgareddau arloesedd a chyflawni canlyniadau gyda saith nod llesiant cenedlaethau'r dyfodol;
- **cymryd camau ataliol** i nodi a lliniaru heriau sy'n gysylltiedig â'n strategaeth, gan fonitro ac adolygu cynnydd yn rheolaidd.

8. Yr effaith ar y Gymraeg

Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiad Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol, efallai yr hoffech gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu [Cymraeg 2050](#).

[250 gair ar y mwyaf]

Yn ogystal â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, byddwn yn chwilio am ffyrdd ychwanegol o sicrhau bod ein gweithgareddau Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg.

Mae ein presenoldeb sefydledig yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd, a fydd yn parhau drwy gyfnod y strategaeth newydd, yn rhoi llwyfan i'n staff a'n myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gyfathrebu eu gweithgareddau ymchwil ac arloesi ar draws cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gyfrannu at **Thema 2 Cymraeg 2050 o gynyddu defnydd o'r Gymraeg**.

Mae ein rhaglen Llywodraethwyr Ysgol wedi darparu cymorth wedi'i dargedu i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ddod yn llywodraethwyr ysgol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu dwyieithog Cymru gyfan cyntaf ar gyfer llywodraethwyr ysgol newydd a llywodraethwyr ysgol a recriwtiwyd yn ddiweddar mewn partneriaeth â Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru a Llywodraethwyr Ysgolion. Byddwn yn parhau â'r prosiect dros y cyfnod newydd, gyda chefnogaeth i aelodau o staff ac ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n siarad Cymraeg, gan gysylltu â **Thema 3 Cymraeg 2050 i greu amodau ffafriol – sef gwella seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith**.

Mae ein rhaglen Arloesi i Bawb wedi cefnogi sawl prosiect gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, creodd ein prosiect 'Gwahaniaeth Mawr' adnoddau a thestunau Cymraeg nad oeddent ar gael o'r blaen ar gyfer myfyrwyr meddygaeth yng Nghymru sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gan fwydo'n uniongyrchol i **Thema 2 Cymraeg 2050**. Byddwn yn parhau i geisio cefnogi prosiectau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg drwy ein cyllid H-IAA a'n Cronfa Dilyniant Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Adran D: Defnyddio cyllid arloesedd Ymchwil Cymru

Sut mae eich dyraniad Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2023/24 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a nodir yn Adran B, a beth yw eich blaenoriaethau disgwyliedig ar gyfer defnyddio Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn y dyfodol? [Uchafswm o 250 gair – neu atodwch dabl sy'n amlinellu bras feysydd buddsoddi]

Meysydd buddsoddi Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru 2023-24:


Categori ariannu	Swm
33 aelod o staff y mae eu cyflogau'n cael eu cefnogi'n gyfan gwbl drwy gyllid Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru:	
- Rheolwr Busnes Arloesedd	
- Dirprwy Reolwr Busnes (diwylliant ymchwil ac arloesi)	
- Rheolwr Trawsnewid Data Ymchwil ac Arloesi (2FTE)	
- Uwch-ddatblygwr Ceisiadau (2FTE)	
- Rheolwr Effaith ac Ymgysylltu	
- Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd	
- Swyddog Effaith (4FTE)	
- Swyddog Ariannu Effaith ac Arloesedd	
- Swyddog Gweinyddol Effaith	
- Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chenhadaeth Ddinesig	
- Swyddog Cenhadaeth Ddinesig (0.6FTE)	
- Uwch-gynhyrhydd Cynnwys Digidol (Cenhadaeth Ddinesig)	
- Swyddog Arloesedd ac Ymgysylltu â Busnesau (3FTE)	
- Swyddog Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth	
- Rheolwr Partneriaethau Strategol (2FTE)	
- Swyddog Partneriaethau Strategol	
- Swyddog Ymchwil Drosi	
- Swyddog Prosiect Masnachol a Throsi	
- Swyddog Paragyfreithiol (2FTE)	
- Swyddog Contractau (Arloesedd)	
- Swyddog Menter Myfyrwyr (1.5FTE)	
- Swyddog Cyllid Ymchwil	£1,811,359
Aelodaeth SETsquared	£77,323
Aelodaeth WIN	£100,000
Cronfa Dilyniant Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	£40,000
Interniaethau Arloesi ac Effaith	£25,000
System costio a phrisio ymchwil ac arloesi	£241,668
Cyfanswm	£2,295,350

Ym mlynnyddoedd strategaeth y dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi'r staff uchod gan eu bod yn ganolog i ddarparu arbenigedd arloesi gwasanaethau proffesiynol parhaus ac yn sail i'n darpariaeth strategaeth. Byddwn yn parhau i fod yn aelod o SETsquared a WIN. Cynhelir gwerthusiad o Gronfa Dilyniant Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Interniaethau Arloesi ac Effaith ar ddiwedd 2023-24; bydd darpariaeth yn y meysydd hyn yn cael ei haddasu yn dibynnu ar y canlyniad. Byddwn yn parhau i gyd-ariannu ein system costio a phrisio ymchwil ac arloesi. Os bydd y gyllideb yn caniatáu, byddem yn buddsoddi ymhellach yn ein canolfannau rhagoriaeth ymchwil ac arloesi.

Adran E:

Gofynion rheoliadol

DS: Gall CCAUC ofyn am ragor o wybodaeth / eglurhad ar unrhyw un o'r meysydd hyn

i) Safonau'r Gymraeg (2018) <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018
ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Aseswyd effaith y strategaeth hon ar gydraddoldeb
iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Cadarnhaf fod y brifysgol wedi ymrwmo i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'i bod yn gwbl ymrwymedig i'w wyth egwyddor arweiniol.	
Llofnod: Is-Ganghellor	
Dyddiad	26 Mehefin 2023